



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2023
(yn electronig drwy Microsoft Teams ac wedi'i ffrydio'n fyw ar y
we)**

Yn Bresennol:

Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol WHO ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector)

Hefyd yn Bresennol:

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion Heb eu Cadarnhau 30 Mawrth 2023
------------------------	--

Angela Cook	(AC)	Cyfarwyddwr Cynorthwyl, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Julie Bishop	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Iechyd (ar ran AJ)
Liz Blayney	(LB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd Dros Dro
Andrew Jones	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio (ar ran MK)
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Paul Veysey	(PV)	Darpar Ysgrifennydd y Bwrdd
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd o Fforwm y Bartneriaeth Staff
Yn bresennol ar gyfer Eitemau 4.1.1 i 4.1.3 yn unig		
Susan Belfourd	(SB)	Dirprwy Bennaeth Strategaeth a Chynllunio
Robin Howe	(RH)	Arweinydd Clinigol Cenedlaethol y Gwasanaethau Microbioleg
Ciaran Humphreys	(CH)	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus
Nathan Jones	(NJ)	Pennaeth Strategaeth, Cynllunio a Materion Corfforaethol
Rebecca Masters	(RM)	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus
Danielle Seivwright	(DS)	Rheolwr Strategaeth a Chynllunio
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid
Ymddiheuriadau:		
Angela Jones	(AJ)	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd a Llesiant
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Claire Sullivan	(CS)	Cynrychiolydd Staff

Dechreuodd y cyfarfod am 10am

PHW 2023.03.30/1	Croeso ac Ymddiheuriadau
<p>Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn gwylio'r trafodaethau ar-lein. Aeth ati i gynhoi rolau penodol a chyfunol Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol y Bwrdd, a oedd yn ffurfio'r Bwrdd Unedol. Hwn yw Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol am: bennu cyfeiriad strategol; creu a chynnal partneriaethau strategol; pennu parodrwydd i dderbyn risgiau strategol a goruchwyllo risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau; cynnal trefniadau llywodraethu da a phennu naws a diwylliant y sefydliad.</p> <p>O ran cywair a diwylliant, roedd y Bwrdd yn meithrin diwylliant o ddysgu, a diwylliant lle gallai pawb ddod ynghyd a bod ar eu gorau, a hynny fel nhw'u hunain, heb fod ofn gwahaniaethu nac anfantais o unrhyw fath, gan gynnwys unrhyw ymddygiad ffobig. Roedd gan y bwrdd bolisi dim goddefgarwch yn</p>	

Dyddiad: 30 Mawrth 2023	Fersiwn: 0.0	Tudalen: 2 o 20
-------------------------	--------------	-----------------

hyn o beth, ac anogodd JW unrhyw un sy'n profi gwahaniaethu o'r fath i ddefnyddio'r broses sydd ar gael i roi gwybod am hynny. Gofynnodd hefyd i unrhyw un a oedd wedi gweld/clywed am unrhyw wahaniaethu i roi gwybod.

Roedd y Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn unol â pholisi ymddygiad ffurfiol y Bwrdd; roedd hyn yn cyfeirio at ddarllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod, gan fanteisio i'r eithaf ar yr amser a oedd ar gael i drafod ar y diwrnod. Roedd y Bwrdd hefyd yn dilyn Gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru: gweithio gyda'n gilydd, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth

Dywedodd JW fod Dyfed Edwards ar secondiad o Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a hynny am un flwyddyn yn rôl y Cadeirydd Dros Dro. Roedd hyn yn golygu na allai DE gyflawni rôl Is-gadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw, a diolchodd JW i KE am gytuno i aros ar Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru am flwyddyn arall, fel Is-Gadeirydd. Croesawodd JW hefyd Paul Veysey a fyddai'n ymuno â'r sefydliad yn fuan fel Ysgrifennydd y Bwrdd, a diolchodd i Liz Blayney am fod yn Ysgrifennydd y Bwrdd dros y misoedd diwethaf.

Nododd y Bwrdd ymddiheuriadau gan Angela Jones, Meng Khaw a Claire Sullivan.

PHW 2023.03.30/2 Datgan Buddiannau

Ni wnaeth aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

PHW 2023.03.30/3 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

PHW 2023.03.30/3.1 Adroddiad y Prif Weithredwr

Wrth gyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr, nododd TC yr ystod amrywiol o swyddogaethau a gwasanaethau y cyfeirir atynt, gan gyfeirio at ehangder rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru. Tynnodd sylw at:

- Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 yn y DU.* Fel Cyfranogwyr Craidd ar gyfer Modiwlau 1 a 2B roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymateb i geisiadau datgelu Rheol 9 ac yn cyflwyno tystiolaeth yn ôl yr angen; Diolchodd TC i'r tîm a oedd yn cefnogi'r broses o gyflwyno tystiolaeth.
- Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol ar y Trefniadau Diogelu Iechyd yng Nghymru,* a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023. Roedd hwn yn adolygiad annibynnol o System Diogelu Iechyd Cymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i asesu cryfderau'r system yn erbyn meincnod sefydledig ar gyfer systemau sy'n perfformio i lefel uchel. Ychwanegodd AJ fanylion, gan nodi bod yr adroddiad yn cynnwys 15 o argymhellion ac y byddai'r Bwrdd yn trafod y rhain mewn sesiwn ddatblygu i ddod. Un o'r blaenoriaethau cychwynnol yw egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau priodol ar draws y system, a byddai hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r adolygiad sydd yn yr arfaeth o'r Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru.

- *Ymchwiliad dilynol Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i Wasanaethau Endosgopi*: roedd yr ymchwiliad hwn yn adolygu'r camau pellach sydd eu hangen i roi'r cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol ar waith, lleihau amseroedd aros a gwella canlyniadau i gleifion a chyfraddau goroesi yng Nghymru maes o law. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor drwy Sharon Hillier, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Sgrinio, a Steve Court, Pennaeth Rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru. Mynegodd TC ddiolch y Bwrdd i'r ddau.
- *Cymryd rhan yn Uwchgynhadledd Costau Byw Cymru Gyfan: Cydweithio i Greu Cymru Iachach*. Roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt AS, wedi annerch uwch-arweinwyr ac eiriolwyr cyhoeddus yn yr Uwchgynhadledd, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Meddygol a Phrif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd yr Uwchgynhadledd wedi nodi nifer o ffyrdd o symud ymlaen â'r gwaith hanfodol hwn a byddai Grŵp Cydgysylltu BAHW nawr yn ystyried y camau nesaf.
- *Cynhadledd Cymdeithas Rheoli Pobl Gofal Iechyd Cymru (HPMA Cymru)*: Dywedodd TC fod Tîm Datblygu Pobl a Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ennill dwy wobr. Crynhodd NL y gwobrau am Ragoriaeth mewn Datblygiad Sefydliadol a Dadansoddeg y Gweithlu a llongyfarchodd y Bwrdd NL a'r tîm yn fawr.
- *Fforwm Cynghori'r Bwrdd a Phreswyl y Llysgenhadon Ifanc*. Bu dros 30 o Lysgenhadon Ifanc yn Fforwm Partneriaeth y Bwrdd a sesiynau ychwanegol ar 22 a 23 Chwefror; roedd y thema'n canolbwyntio ar yr argyfwng costau byw. Crynhodd RBW y sesiynau cadarnhaol, cynhyrchiol a'r set o bum neges allweddol i'r Bwrdd a ddeilliodd o hynny: (1) bod straen a phwysau yn y cartref yn cael effaith ehangach; (2) angen gwella'r cymorth iechyd meddwl a chwnsela ar gyfer pob oedran; (3) y gofyniad am fwy o gyfathrebu rhwng ac ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus; (4) roedd gwasanaethau ieuentid yn hollbwysig a dylid eu hamddiffyn; a (5) yr angen am gymorth a chefnogaeth ariannol fwy cyfartal i bobl ifanc gyda chostau cludiant, prydau ysgol a chostau cysylltiedig. Cadarnhaodd RBW fod y materion hyn wedi cael eu hystyried yn y gwaith parhaus ar y Strategaeth Hirdymor.

Camau Gweithredu: RBW

- Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2023, soniodd TC am y gwaith gyda Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) i sefydlu Fforwm Rhanbarthol Ewrop ar yr economi llesiant. Cynhaliwyd y Fforwm ddechrau mis Mawrth, gyda chynrychiolaeth amlwg o Gymru. Byddai trafodaethau dilynol gyda Sefydliad Iechyd y Byd a gwledydd eraill.

Commented [RR(HW-N2C1)]: RBW has queried what the action is

- Gwahoddwyd JW gan TC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod yr oedd hi ac Angela Jones wedi'i gynnal ym mis Chwefror gyda Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Soniodd JW am gefnogaeth gref y Dirprwy Weinidog i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac amlinellodd y meysydd a drafodwyd mewn cyfarfod cadarnhaol iawn. Roedd y rhain yn ymddangos yn y Strategaeth Hirdymor ac yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau yr oedd y Llysgenhadon Ifanc wedi'u hamlygu, yn enwedig o ran iechyd meddwl a lles emosïynol plant a phobl ifanc. Awgrymodd JW y dylid cynnwys diweddariad ar waith y Llysgenhadon Ifanc yn y sesiwn frifffio nesaf â'r Dirprwy Weinidog, a gofynnodd i KE barhau i godi ymwybyddiaeth mewn cyfarfodydd yn cynnwys yr Is-Gadeiryddion a'r Dirprwy Weinidog.

Camau Gweithredu: RBW/KE

Yn olaf, croesawyd Paul Vesey i'r sefydliad gan TC, a chadarnhawyd y byddai'n ymgymryd â rôl Ysgrifennydd y Bwrdd ar 17 Ebrill 2023. Diolchodd JW i TC am ei hadroddiad, gan nodi eto ehangder y pwnc dan sylw. Yna gofynnodd a oedd unrhyw gwestiynau:

Fe wnaeth SG groesawu Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o'r Trefniadau Diogelu Iechyd; nododd, er mai COVID-19 oedd wedi ysgogi'r adolygiad, roedd yr agenda diogelu iechyd yn llawer ehangach ac roedd yn edrych ymlaen at y drafodaeth ehangach honno yn sesiwn ddatblygu'r Bwrdd.

Camau Gweithredu: MK

Estynnodd MM ei longyfarchiadau i'r Tîm Datblygu Sefydliadol a Phobl ar ennill dwy wobwr fawreddog; roedd hyn yn gydnabyddiaeth haeddiannol.

Cafodd yr Adroddiad ei **gydnabod** gan y Bwrdd, a **chafodd sicrwydd** yn sgil yr Adroddiad a'r trafodaethau.

PHW 2023.03.30/3.2 Y Trosolwg Diweddaraf o Iechyd y Cyhoedd

Gan ddefnyddio sleidiau Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru (y Dangosfwrdd Trosolwg) i roi syniad o'r sefyllfa bresennol, daeth IB â'r materion allweddol canlynol i sylw'r Bwrdd:

- O ran Clefydau Trosglwyddadwy, roedd COVID-19 bellach mewn cyfnod cylchol; yn ogystal â'r ffigurau ar gyfraddau brechu yn erbyn COVID-19, byddai'r data'n cynnwys clefydau anadlol trosglwyddadwy eraill cyn hir.
- O ran gallu'r System i ymateb, nododd IB y croesewid y dystiolaeth o leihau llwybrau cleifion sy'n aros dros 36 wythnos; fodd bynnag roedd y nifer yn parhau'n uchel, gyda thua 250,000 o lwybrau cleifion yn aros dros 36 wythnos.

- Roedd perfformiad gwasanaethau gofal brys yn erbyn y targed pedair awr hefyd yn dangos rhywfaint o adferiad; roedd y data diweddaraf yn nodi gostyngiad yn yr oriau ambiwlans a gollwyd oherwydd amseroedd aros y tu allan i adrannau achosion brys; roedd hyn bellach yn is nag ar unrhyw adeg drwy gydol 2022; fodd bynnag, roedd pwysau sylweddol yn parhau.
- O ran y lefelau marwolaethau gormodol, roedd y data diweddaraf yn amlygu'r marwolaethau gormodol yn sgil COVID-19. Parhaodd y tueddiadau yn ôl math o glefyd, gyda gormodedd yn cael eu hadrodd yn enwedig ar gyfer diabetes, clefyd y galon a chylchrediad y gwaed, clefydau anadlol, a chlefydau niwroddirymiol. Cyfeiriodd IB at y gwaith sydd ar y gweill o ran cynnal dadansoddiad manwl o'r marwolaethau gormodol â diabetes. Byddai'r Bwrdd yn ystyried hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Camau Gweithredu: IB

- O ran ymddygiadau iach a llesiant, roedd y tueddiadau ar gyfer ysmegu wedi aros yn sefydlog. Roedd gwaith ar y gweill i benderfynu ar y ffordd orau o ganfod data cywir ac o ansawdd da ar anweddu (*vaping*), i'w gynnwys maes o law yn y Dangosfwrdd Trosolwg. Roedd y sefyllfa o ran yfed alcohol wedi aros heb newid, fel y gwnaeth canran y boblogaeth sy'n bwyta ffrwythau a llysiau bob dydd. Cadarnhaodd dangosyddion llesiant fod pob un ohonynt yn parhau i fod yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.
- O ran penderfynyddion iechyd ehangach, roedd tystiolaeth yn dangos bod effeithiau costau byw wedi arwain at fwy o bobl yn gorfod benthycu arian neu ddefnyddio cardiau credyd; yr oedd hyn yn fwyaf amlwg ymhlith y sawl yn yr amgylchiadau mwyaf eithafol. Nododd IB fod Cyngor ar Bopeth wedi adrodd bod oddeutu 800,000 o bobl yn methu ag ychwanegu at fesuryddion nwy a thrydan pan oedd angen; roedd y niferoedd presennol yn uwch yn ystod y ddau fis cyntaf yn 2023 na thrwy gydol 2021. Roedd lefelau diweithdra wedi aros yn isel, gyda 28.4% o'r sawl a oedd yn anweithgar yn economaidd ar salwch tymor hir. Roedd hyn yn cyfrannu at heriau wrth helpu oedolion hŷn 50-64 oed i aros yn y gweithle.

Diolchodd JW i IB am ei ddiweddariad cynhwysfawr, llawn gwybodaeth; yna gofynnodd a oedd unrhyw gwestiynau neu sylwadau:

Tynnodd TC sylw at mor werthfawr yw gwybodaeth y Dangosfwrdd Trosolwg wrth ddylanwadu ar flaenoriaethau'r sefydliad. Nid oedd lefel y straen a'r trawma ar draws y penderfynyddion ehangach yn dangos unrhyw arwydd y byddant yn lleihau a byddai hyn yn ddylanwad allweddol wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Nododd y Bwrdd y diweddariad a **chafodd sicrwydd** o'r wybodaeth a rannwyd a'r trafodaethau.

PHW 2023.03.30/3.3 Adroddiad Integredig ar Berfformiad

Wrth gyflwyno'r eitem hon, nododd HG fod diwedd y flwyddyn ar y ffordd; byddai papurau cyfarfod Bwrdd mis Mai yn cynnwys y sefyllfa fel ag yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn. Gan fod cydweithwyr y Bwrdd wedi darllen yr holl bapurau ymlaen llaw, gwahoddoddd HG bob arweinydd gweithredol i amlygu unrhyw faterion o bryder neu ddiddordeb:

O ran materion y gweithlu, tynnodd NL sylw at yr hyn a ganlyn:

- Yn dilyn cynnydd diweddar mewn absenoldebau salwch, roedd y gyfradd bellach wedi gostwng i 3.6%, gyda salwch tymor byr yn cyfrif am 71% o'r holl absenoldebau salwch, yn bennaf o fewn gwasanaethau microbioleg a sgrinio.
- Arhosodd cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol o gwmpas 90%; cydnabu NL fod lle i wella a chadarnhaodd fod y Tîm Gweithredol wrthi'n monitro'r sefyllfa
- Lleihad bach mewn lefelau cydymffurfio â'r Arfarniad; roedd NL yn awyddus i gael sefyllfa well yn ystod 2023.
- Gostyngiad yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 16.1% i 11.8%;
- Lansiad Ymlaen, sef Rhwydwaith Cymraeg y Staff; roedd hwn yn ddatblygiad i'w groesawu'n fawr a byddai'r holl Rwydweithiau Staff yn dod at ei gilydd ar gyfer digwyddiad ym mis Mai.

Diolchodd HG i NL a gofynnodd a oedd unrhyw gwestiynau:

Canmolodd DC y cynnydd a wnaed i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Croesawodd KE lansiad Rhwydwaith y Gymraeg; roedd yn gobeithio ymuno â chyfarfod nesaf y Rhwydwaith ym mis Mai 2023. Mynegodd siom ynghylch y gyfradd o'r staff a dderbyniodd frechiad rhag y fflw, o ystyried yr ymdrechion sylweddol a wnaed i wella hyn; fodd bynnag roedd yn welliant bychan ar lefelau brechu 2021. Aeth KE ymlaen i ofyn a fyddai'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos gwelliant. Wrth ymateb, amlinellodd RBW y model cyflwyno cymysg presennol a chadarnhaodd y cynlluniau sydd ar waith i gynnal grwpiau ffocws a llunio cynllun ar y cyd ar gyfer 2023/24. Roedd y rhaglen frechu ar gyfer Gaeaf 2022/23 bellach wedi dod i ben, felly roedd y sefyllfa diwedd blwyddyn yn annhebygol o newid yn sylweddol.

Cyllid

Dywedodd HG, o ystyried pa mor gydnaws yw'r materion, y byddai'n cynnwys cyfeiriad at Gynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 yn ystod y diweddariad cyllid. Tynnodd HG sylw at y canlynol:

- Cyflawni holl dargedau ariannol allweddol 2022/23, gyda thanwariant bach o £150k; roedd hyn yn cynrychioli 0.1% o'r gyllideb flynyddol.
- Cyflawni targedau ariannol allweddol eraill; byddai gwariant cyfalaf a ymrwymwyd tuag at ddiwedd y flwyddyn yn arwain at wariant o 98% o'r cyfalaf a ymrwymwyd. Byddai trafodaethau ynghylch y cynllun tymor canolig integredig (IMTP) yn ddiweddarach ar yr agenda yn ystyried y mater hwn ymhellach.
- Y tanwariant mewn gwasanaethau diogelu iechyd a sgrinio; roedd hyn yn deillio o: waith a wnaed ar gyfer cyrff eraill a oedd wedi arwain at swm bach o arian dros ben mewn incwm; peth llithro mewn gwariant yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn, a swyddi gwag mewn gwasanaethau diogelu iechyd.
- Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer costau cysylltiedig â COVID-19 fel cyllid gwariant ychwanegol, a gyhoeddwyd yn seiliedig ar wariant misol gwirioneddol; roedd hyn wedi lleihau yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd llai o ofyn am brofion.
- Y sefyllfa ariannol gyffredinol heriol ar gyfer GIG Cymru a'r camau a gymerwyd i ddychwelyd arian dros ben nas rhagwelwyd i Lywodraeth Cymru, i gynorthwyo'r sefyllfa.
- Nid oedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Gwelliant Cymru yn cynnwys darpariaeth i gadw unrhyw danwariant; byddai tanwariant yn dychwelyd i Lywodraeth Cymru;
- O ran cynllun tymor canolig integredig 2022/25 yn benodol, nododd HG fod 96% o cerrig milltir y cynllun presennol naill ai wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn i'w cwblhau fel y cynlluniwyd..

Yna gofynnodd HG a oedd unrhyw gwestiynau:

Gofynnodd NE am sicrwydd ynghylch pa mor hyderus oedden ni ynghylch cyflawni'r 131 o gerrig milltir sy'n weddill. Cadarnhaodd HG fod y Tîm Gweithredol, ym mis 11, wedi cael sicrwydd y byddant yn cael eu cyflawni'n llawn; derbyniodd y gallai'r agosrwydd at ddiwedd y flwyddyn alw am rywfaint o adolygu. Roedd TC yn cydnabod cymhlethdod rhai materion a'r angen posibl i reoli darpariaeth y tu hwnt i'r cyfnod diwedd blwyddyn. Roedd y Tîm Gweithredol wedi cytuno i newidiadau o ran dyddiad 5 o'r cerrig milltir. Byddai trafodaethau ynghylch cyflawni yn erbyn y Strategaeth Hirdymor yn cynnwys yr angen i reoli camau gweithredu ar draws holl delerau'r cynlluniau tymor canolig integredig.

- Nododd MM yr effaith a gafwyd yn sgil swyddi gwag a'r angen i ystyried y rhain wrth gynllunio ar gyfer 2023/24.

- Soniodd JB y cafodd nifer fawr o staff eu recriwtio yn ystod y flwyddyn; roedd hyn wedi cael effaith andwyol ar gyflawniad yn erbyn y rhaglen waith ac roedd yn cydnabod yr angen parhaus i sicrhau bod disgwyliadau yn cyfateb capasiti.
- Roedd HG yn cydnabod yr angen i reoli cerrig milltir ac ymrwymadau cynlluniau tymor canolig integredig ar lefel Cyfarwyddiaeth ac i fesur cynnydd trwy gydol y flwyddyn, yn hytrach na dibynnu ar ôl-ddarpariaeth arfaethedig. Roedd nifer y canlyniadau hefyd yn haeddu sylw parhaus.
- Gofynnodd KY am yr opsiynau posibl ar gyfer defnyddio'r tanwariant o £150k. Dywedodd HW fod y rheolau ynghylch trefn ariannol y GIG yn golygu na ellir cadw'r tanwariant, a chadarnhaodd y byddai'r tanwariant yn dychwelyd i Lywodraeth Cymru.

Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio

Canolbwyntiodd AJ ar heintiau, sgrinio ac imiwneiddio, a thynnodd sylw at y materion a ganlyn:

- Y lefel gymharol sefydlog o heintiau COVID-19, heb unrhyw ddigwyddiadau/achosion sylweddol wedi'u hadrodd y mis hwn; Omicron oedd yr amrywiad amlycaf o hyd. Parhaodd niferoedd y profion i fod yn gymharol gyson ac nid oedd unrhyw newidiadau i'r cyngor ynghylch profi. Cadarnhaodd AJ fod amseroedd dychwelyd profion mewn labordai yn parhau'n dda;
- Roedd heintiau anadlol eraill hefyd yn destun monitro parhaus, roedd achosion o'r fflw yn parhau i fod yn is na'r trothwy 'dwysedd isel';
- Adolygodd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ddata ynghylch tystiolaeth sgrinio, gan seilio rhaglenni sgrinio ar ffactorau megis oedran a rhyw. Roedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru statws sylwedydd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol a bu'n cydweithio'n agos gyda Phwyllgor Sgrinio Cymru;
- Roedd trefniadau gweithredu diwydiannol a thywydd garw wedi effeithio ar ddarpariaeth y rhaglen sgrinio dros y gaeaf; roedd y sefyllfa bresennol fel a ganlyn:
 - Roedd trefniadau sgrinio AAA ar y trywydd iawn i adfer yn llwyr erbyn diwedd mis Mawrth 2023;
 - Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y safle cyfleuster sgrinio amlswyddogaeth newydd;
 - Ar gyfer sgrinio'r coluddyn, roedd 78% o feddygon teulu wedi dewis ymuno â threfniadau gwahoddiad cymeradwy; byddai hyn yn helpu gyda thegwch o ran y nifer sy'n manteisio ar brawf sgrinio;
 - Roedd gwaith ymgysylltu yn parhau â'r Trydydd Sector, fel y trafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd. Roedd enghreiffiau o

ymgysylltu rhagweithiol yn cynnwys: profi adnoddau yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd cyn eu cymeradwyo a'u cyhoeddi; cronfa ddata rhanddeiliaid a ddefnyddir i rannu a dosbarthu gwybodaeth; a mewnbwn gan y Trydydd Sector o ran hyfforddiant sgrinio.

- Ymestyn rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn imiwneiddio ar draws lefelau strategol, tactegol a gweithredol; nid oedd y sefydliad, fodd bynnag, yn arwain ar gyflenwi gwasanaethau imiwneiddio. Byddai'r Bwrdd yn derbyn sesiwn frifio cyn bo hir ar rolau a chyfrifoldebau ar draws y system.

Camau Gweithredu: AJ/MK

- Parhaodd y gostyngiad araf mewn brechiadau 6-mewn-1 i blant dan flwydd oed, gyda chyfradd imiwneiddio o 94.6% o gymharu â'r gyfradd yn Lloegr o 93.5% ac yn yr Alban o 95.5% ar gyfer yr un cyfnod. Roedd Cylchlythyr Iechyd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022 yn sail i waith ychwanegol ar polio, a dylai hyn wella'r gyfradd sy'n derbyn brechiadau 6-mewn-1. Roedd y gyfradd MMR yn is na'r targed o 95%, sef 90.2% ar hyn o bryd o gymharu â chyfradd Lloegr o 85.8% a chyfradd yr Alban o 90.1%. Byddai adolygiad o'r Cynllun Gweithredu presennol yn canolbwyntio ar yr hyn a weithiodd i wella'r cyfraddau a dderbyniodd y brechiadau.

Diolchodd JW i AJ, a gofynnodd a oedd unrhyw gwestiynau:

Gofynnodd MM am fanylion y mesurau a ddefnyddiwyd i asesu effeithiolrwydd rhaglenni sgrinio. Cadarnhaodd AJ mai Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU sy'n pennu'r safonau a'r mesurau canlyniadau ar gyfer y rhaglenni. Cadarnhaodd JW y bwriad i gynllunio Sesiwn Datblygu ar gyfer y Bwrdd yn ddiweddarach yn 2023 i gwmpasu pob agwedd ar ddylunio, darparu a gwerthuso rhaglenni sgrinio. Byddai hyn yn amserol, o ystyried trafodaethau ynghylch cyflwyno gwiriadau iechyd yr ysgyfaint a gwiriadau sgrinio corfforol babanod newydd-anedig.

Camau Gweithredu: MK/LB

Soniodd SG am y diffyg ymddangosiadol o weithredu'n fewnol o fewn y system ar draws y llwybr, gan gyfeirio at yr anawsterau i weithredu systemau profi clyw babanod newydd-anedig fel enghraifft. Soniodd IB am rôl Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chadarnhaodd fod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cydnabod yr angen am fudo systemau ar draws y llwybr profi clyw babanod newydd-anedig i wella dibynadwyedd. Cyfeiriodd IB hefyd at y 'camau darganfod' sydd ar y gweill ar draws systemau sgrinio TG.

Estynnodd KE ei llongyfarchiadau ar adferiad y rhaglen sgrinio AAA a'r gwaith sydd ar y gweill ar draws y rhaglenni i adfer a thrawsnewid gwasanaethau. Gofynnodd am ddiweddiariad ar effaith amseroedd aros presennol ar gyfer cylch profion sgrinio'r fron. Gwnaeth AJ a TC sylwadau ar gymhlethdod y mater hwn a

chyfeiriodd JW y mater at y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i'w ystyried ymhellach. Byddai sesiwn ddatblygu arfaethedig y Bwrdd hefyd yn cynnwys trafodaeth ar yr agwedd hon.

Camau Gweithredu: DC/MK/Sharon Hillier

Nododd RBW:

- 181 o adroddiadau digwyddiad ym mis Chwefror 2023; roedd 40 o'r rhain yn ymwneud â gwasanaethau a gomisiynwyd, yn bennaf yn Sgrinio Serfigol Cymru. Roedd gwaith ar y gweill gyda gwasanaethau sgrinio ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth a threfniadau comisiynu i gynyddu'r disgwyliadau o ran ansawdd. Roedd yr adroddiadau digwyddiad yn sail i ddysgu sefydliadol ac roeddent hefyd yn destun proses asesu 'yn seiliedig ar y niwed a gafwyd'. Roedd y risg o niwed yn yr adroddiadau digwyddiad presennol yn isel neu'n peri dim risg.
- Rheoli 51% o achosion o fewn y targed 30 diwrnod, heb newid ers y misoedd blaenorol. Roedd y tîm Gweithio i Wella a'r gwasanaethau perthnasol yn gweithio'n galed i ddeall y rhesymau dros y gyfradd hon ac i wella cydymffurfiaeth.
- Derbyniwyd 4 cwyn ffurfiol ac 14 cwyn anffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gyda'r brif thema yn ymwneud â phryderon am y Gymraeg; roedd gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn.
- Ni chafwyd unrhyw hawliadau newydd nac hawliadau newydd am unioni sefyllfa. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio ar y cyd i reoli'r hawliadau unioni yn ymwneud â mater TB Llwynhendy. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau y gellir adrodd amdanynt yn genedlaethol

Nododd y Bwrdd yr Adroddiad Perfformiad Integredig a **chafodd sicrwydd** o'r Papurau a thrafodaeth y Bwrdd.

Egwyl

PHW 2023.03.30/3.4 Rheoli Risgiau

Wrth gyflwyno'r eitem hon, nododd RBW yr eitem ddiweddarach ar yr agenda; roedd yr eitem honno'n nodi'r bwriad i adnewyddu'r disgrifyddion risg strategol o ganlyniad i adnewyddu'r Strategaeth Hirdymor. Byddai'r broses gyfan yn effeithio ar gynnwys y gofrestr risgiau strategol a'r gofrestr risgiau corfforaethol cyfredol; yn y cyfamser, roedd y papur hwn yn cyflwyno diweddariad ar bob un o'r risgiau sy'n bodoli, ar lefelau strategol a chorfforaethol.

Fe wnaeth y Bwrdd **gynabod** y Gofrestr Risgiau Strategol a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a **chafodd sicrwydd** o'r Gofrestr a'r drafodaeth.

PHW 2023.03.30/3.5 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau

Wrth gyflwyno'r eitem hon ar yr agenda, nododd JW fod Pwyllgorau'r Bwrdd yn cyflawni rôl lywodraethu bwysig, ar ran y Bwrdd llawn. Diolchodd i bawb a gymerodd ran, a gwahoddodd Gadeirydd pob Pwyllgor i roi diweddariad byr ar unrhyw faterion i'w dwyn i sylw'r Bwrdd llawn.

Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl

Soniodd MM wrth aelodau'r Bwrdd am y sylwebaeth a gynhwyswyd yn y papurau ynghylch cyfarfod y Pwyllgor ar 12 Ionawr 2023. Roedd cyfarfod dilynol ar 15 Mawrth, lle nad oedd y cofnodion ar gael eto, wedi canolbwyntio ar nifer o ddiweddariadau polisi i'w cymeradwyo ar ôl yr ymgynghoriad; er hwylustod i'r Bwrdd, crynhodd MM y diweddariadau hyn.

Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Clinigol

Tynnodd NE sylw at y materion a ganlyn:

- Sicrwydd gan Gydweithrediad y GIG ynghylch ei datganiad sicrwydd blynyddol;
- Y Datganiad Blynyddol ar y Cod Ymarfer Corfforaethol
- Cymeradwyo nifer o bolisiâu
- Ystyried y Gofrestr Risg gan ganolbwyntio ar seiberddiogelwch
- Materion yn ymwneud ag Archwilio Cymru
- Adroddiad archwilio mewnol ar y Gymraeg – byddai hwn yn amodol ar gamau gweithredu dilynol.

Nododd HG mai uniondeb ar ddiwedd y flwyddyn oedd y brif flaenoriaeth. Roedd Archwilio Cymru wedi ymrwmo i weithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i geisio dwyn ymlaen amseriad ei adolygiad o'r cyfrifon blynyddol.

Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

Darparodd KE ddiweddariad ar y camau gweithredu diweddar, gan gynnwys dadansoddiad manwl o'r Gyfarwyddiaeth Iechyd a Lles; roedd hyn yn amserol o ran llywio datblygiad y cynllun tymor canolig integredig. Yn ogystal, mynegodd KE rai pryderon ynghylch parodrwydd y sefydliad i gyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd newydd, sy'n berthnasol o 1 Ebrill 2023. Roedd y pryderon yn ymwneud â diffyg arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd RBW fod y Canllawiau wedi'u cyhoeddi ar 29 Mawrth 2023, i gefnogi'r ddeddfwriaeth sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2023. Nododd RBW fod pob sefydliad, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn wynebu amser cyfyngedig iawn i ystyried cydymffurfiaeth â'r Canllawiau cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym; roedd gwaith ar y gweill ar y gofynion cyfreithiol a pholisi.

Cadarnhaodd JW y byddai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn parhau i gymryd sicrwydd ynghylch pa mor effeithiol yw gweithrediad y ddwy Ddyletswydd, a hynny ar ran y Bwrdd llawn.

Camau Gweithredu: DC/RBW

Daeth KE â'i rôl fel cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i ben drwy ddiolch i aelodau'r Pwyllgor, y sawl a fu'n bresennol a'r swyddogion gweithredol arweiniol - RBW ac MK - am eu cefnogaeth a'u cyngor di-ffael; roedd yn edrych ymlaen at barhau fel aelod yn 2023/24 a dymunodd bob llwyddiant i DC.

Mynegodd DC ei diolch i KE am drosglwyddiad cynhwysfawr, ac amlinellodd yr eitemau ar yr agenda a fyddai'n parhau yn 2023/24, gan gynnwys y rhai a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfarfod hwn.

Mynegodd JW ddiolch y Bwrdd i KE am y ffordd arbennig yr oedd wedi cadeirio'r Pwyllgor; dymunodd cyd-aelodau'r Bwrdd bob llwyddiant i DC yn y rôl, a diolchodd JW i DC yn enwedig am ei diwydrwydd wrth baratoi i gymryd y rôl fel cadeirydd, tra hefyd yn cyflawni rôl pencampwr Plant a Phobl Ifanc, yn eistedd ar y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd ac ar rwydwaith y Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gyfer ymchwil a datblygu. Diolchodd JW i KY am ei pharodrwydd i ymgymryd â rôl pencampwr Plant a Phobl Ifanc.

Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd

Dywedodd SG fod y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd wedi cyfarfod ddiwethaf ar 8 Mawrth 2023; roedd y ffocws presennol yn canolbwyntio ar ystyried mewn manylder ansawdd mewn ymchwil, gan anelu at un dull sefydliadol o ymdrin â data a datblygu strategaeth werthuso. Byddai hyn yn sail i'r Strategaeth Hirdymor, yn yr un modd â'r strategaeth Ddigidol a Data. Roedd gan y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd agenda uchelgeisiol a fyddai'n cefnogi'r Strategaeth Hirdymor a'r cynllun tymor canolig integredig ar gyfer 2023/26. Cadarnhaodd IB ei fod yn disgwyl y byddai'r strategaethau sylfaenol ar gael i'w rhannu ym mis Mehefin.

Camau Gweithredu: IB

Nododd y Bwrdd y diweddariadau a ddarparwyd a **chafodd sicrwydd** o'r papurau a thrafodaeth y Bwrdd.

PHW 2023.03.30/4 Eitemau i'w Cymeradwyo**PHW 2023.03.30/4.1 Materion Strategol i'w Cymeradwyo**

Wrth gyflwyno'r gyfres o bapurau, dywedodd HG fod Strategaeth Hirdymor 2023-35, y Cynllun Strategol (cynllun tymor canolig integredig) 2023-26, a'r Cynllun Ariannol/Fframwaith Rheoli Cyllidebol ar gyfer 2023 wedi eu cwmpasu mewn set o ddogfennau sy'n sail i'r dull strategol o gyflawni'r chwe blaenoriaeth strategol ac amcanion llesiant y sefydliad.

Nododd fod y Strategaeth Hirdymor yn adnewyddiad o'r Strategaeth a gymeradwywyd yn 2018, ac yn cynnwys pwrpas, cenhadaeth a gweledigaeth

sefydliadol newydd. Roedd y broses ddylunio, ymgysylltu a datblygu wedi cymryd dwy flynedd, gyda'r Bwrdd yn chwarae rhan lawn ym mhob cam ac wedi bwrw golwg ar y drafftiau allweddol. Byddai'r cyfarfod, felly, yn mabwysiadu dull trosolwg lefel uchel, yn hytrach nag un wedi'i ystyried yn fanwl.

PHW 2023.03.30/4.1.1 Strategaeth Hirdymor

Cyflwynodd HG Strategaeth Hirdymor 2023–2035: *Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru Iachach*. Roedd y broses wedi cynnwys trafodaethau ac ymgysylltu sawl gwaith; cydnabu HG gyfraniadau allweddol llawer o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru ac estynnodd ei ddiolch i bawb a gymerodd ran.

Roedd y dull a fabwysiadwyd yn nodi rôl a swyddogaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, o fewn cyd-destun uchelgais y sefydliad a fynegwyd yn glir. Roedd cyfieithiad Cymraeg a fersiwn 'Saesneg clir' wrthi'n cael eu paratoi er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad a'r hygyrchedd gorau posibl.

Gofynnodd HG i'r Bwrdd ystyried y ffaith bod y Strategaeth Hirdymor yn cynnwys tair prif adran; y Naratif, yn nodi rôl a gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru; datblygu canlyniadau a fframwaith ar gyfer mesur; a'r nodweddion galluogi sydd eu hangen i gyflawni yn erbyn y canlyniadau.

Y Gwerthoedd a'r hyn yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru am ei gyflawni

Cyfeiriodd HG yn gyntaf at yr adrannau Naratif, Canlyniadau a Gwerthoedd a oedd yn anelu at gofleidio ac adlewyrchu diwylliant y sefydliad a'i werthoedd; roedd hyn yn cynnwys disgrifiad o rôl a diben Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyflawniad yn erbyn y canlyniadau.

Diolchodd SG i HG am ystyried a mynegi'r ystod o sylwadau a gafwyd gan y Cyfarwyddwyr Anweithredol; croesawyd y dull agored hwn, ac roedd SG o'r farn bod y Strategaeth Hirdymor yn adlewyrchu graddfa'r uchelgais yn dda.

Roedd MM yn croesawu'r ddogfen; roedd y Naratif yn hawdd i'w ddarllen ac wedi'i strwythuro'n dda. Gwnaeth ddau bwynt penodol:

- Gallai'r cynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau strategol fod yn amodol ar yr heriau a'r cyfyngiadau sy'n wynebu'r GIG yn ehangach. Nid oedd yn dymuno tanbrisió'r uchelgais a nodir yn y Strategaeth Hirdymor, ond gofynnodd a allai fod cynnydd gwahaniaethol ar draws y blaenoriaethau, yn hytrach na chynnydd unffurf.
- Croesewir y ffocws ar ganlyniadau, gan nodi bod rhai dangosyddion yn dal i gael eu datblygu.

Wrth ymateb i hyn, cydnabu HG y pryderon, gan nodi bod y Tîm Gweithredol wedi trafod lefel yr uchelgais a'r potensial ar gyfer cynnydd. Byddai'r Strategaeth Hirdymor yn ddogfen fyw, ddeinamig gyda'r broses yn caniatáu ar gyfer newidiadau i adlewyrchu'r cyd-destun cynllunio/gweithredu; roedd cynnydd

gwahaniaethol yn debygol dros y cyfnod cynllunio. O ran canlyniadau, cadarnhaodd HG y byddai'r gwaith a wnaed eisoes yn helpu i lywio'r dull gweithredu yn y dyfodol, yn enwedig, er enghraifft, wrth gynllunio canlyniadau ar gyfer gwasanaethau sgrinio ac amddiffyn plant.

Soniodd TC am yr angen am ymdrech ar draws y system gyfan i liniaru'r risgiau a'r heriau strategol, ac i ymgysylltu â'r cyhoedd, i sicrhau bod lefel yr uchelgais yn cael ei mynegi'n glir.

Roedd IB o'r farn bod absenoldeb rhai dangosyddion yn beth positif ar hyn o bryd; byddai'n annog cynllunio'r dangosyddion cywir i olrhain cynnydd yn erbyn y canlyniadau, yn hytrach na derbyn y dangosyddion sydd eisoes ar gael.

Y Blaenoriaethau Strategol

Disgrifiodd HG benderfyniad a chwmpas y blaenoriaethau strategol, ynghyd ag amcanion a chanlyniadau clir. Defnyddiwyd yr un fformat drwyddi draw i fynegi'r blaenoriaethau strategol: y strwythur a'r rhesymeg, y cwmpas, amcanion clir ac yna'r canlyniadau. Amlygodd HG flaenoriaeth newydd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, a ystyrir fel yr her fwyaf arwyddocaol sy'n debygol o ddatblygu yn ystod y Strategaeth bresennol a'i datblygiad parhaus dros amser.

Gofynnodd HG a oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau ar y blaenoriaethau strategol:

Roedd NE yn cydnabod mai newid hinsawdd oedd y mater amlycaf nawr ac yn y dyfodol; diolchodd hefyd i HG am gynnwys ei sylwadau mewn perthynas â data a materion digidol, her ddirfodol arall.

Nodweddion Galluogi

Amlinellodd HG y meddylfryd y tu ôl i'r adran hon, a luniwyd i sicrhau bod yr holl nodweddion a gwasanaethau galluogi yn cael lle amlwg. Cyfeiriodd JW at yr adran ar ymgysylltu, gan nodi'r bwriad i adnewyddu'r dull o weithio mewn partneriaeth strategol.

Roedd DC yn croesawu eglurder y ddogfen, gan ei chael yn hawdd ei darllen. Gofynnodd a oedd yn adlewyrchiad priodol o rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru fel arweinydd systemau, a chododd y posibilrwydd o gynnwys cynrychiolaeth o'r rôl honno ar ffurf diagram. Awgrymodd HG y gallai hyn fod yn rhan o ddogfennaeth ddiwygiedig ynghylch gweithio mewn partneriaeth strategol; byddai'n ymgynghori ymhellach â chydweithwyr ar y pwynt hwn.

Camau Gweithredu: HG

Diolchodd TC i HG a holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd wedi datblygu'r Strategaeth Hirdymor. Roedd yn uchelgeisiol ac yn nodi'n glir sut y gallai Iechyd

Cyhoeddus Cymru wneud y gorau o'i rôl a'i gyfrifoldebau i helpu i wella iechyd a llesiant pobl Cymru.

Ar ran y Bwrdd, llongyfarchodd JW bawb a fu'n rhan o'r gwaith o ddylunio a chreu'r Strategaeth Hirdymor; bu hyn yn destun proses ddylunio a datblygu ragorol, ac roedd yn adlewyrchu arfer gorau.

Cymeradwydd y Bwrdd Strategaeth Hirdymor 2023-2035.

PHW 2023.03.30/4.1.2 Cynllun Strategol

Cyflwynodd HG ail elfen y gyfres o ddogfennau, sef y Cynllun Strategol/Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023–2026. Roedd y ddogfen hon yn disgrifio'r tair blynedd gyntaf o gyflawni'r Strategaeth Hirdymor. Cadarnhaodd ei bod yn ofynnol i holl sefydliadau GIG Cymru ddatblygu a chyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Roedd y cynllun yn cynnwys 42 o amcanion strategol, i lawr o 58 yn y cynllun blaenorol, gyda gostyngiad cyfatebol yn nifer y cerrig milltir, o 382 i 307. Roedd y cynllun yn cwmpasu holl swyddogaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru ac roedd yr holl Gyfarwyddwyr wedi cydweithio i nodi materion trawsbynciol a synergeddau.

Roedd y fformat a fabwysiadwyd yn adlewyrchu fformat y Strategaeth Hirdymor, gydag adrannau ar y blaenoriaethau strategol, yr amcanion, y cerrig milltir a'r canlyniadau. Roedd yn rhaid i'r cynllun hefyd ddangos ei fod wedi cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Gweinidogol 2023/24.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth dechnegol ychwanegol a dogfennau i gefnogi'r cynllun; roedd y rhain yn dangos sut y cyflawnwyd yn erbyn blaenoriaethau'r Gweinidog ac yn disgrifio'r strategaeth gyllidebol gyffredinol gyda'r bwriad o sicrhau sefyllfa o adennill costau ar ddiwedd y flwyddyn.

Yna gofynnodd HG a oedd unrhyw gyfraniadau neu sylwadau:

Roedd SA yn cydnabod y dull cydweithredol a ddefnyddiwyd ar draws y sefydliad wrth ddatblygu a chyflwyno'r ddogfen hon. Canmolodd ehangder y gwaith a oedd yn sail i'r cynllun tymor canolig integredig, a'r ffaith bod pynciau newydd a pherthnasol wedi'u cynnwys, yn enwedig yr argyfwng costau byw a newid hinsawdd.

Roedd MM yn croesawu'r gallu i roi barn a sylwadau ar y ddogfen cyn y drafodaeth yn y Bwrdd. Gofynnodd am gynnwys canlyniadau i unigolion yn ogystal ag ar gyfer gwasanaethau; awgrymodd hefyd y gellid lleoli canlyniadau ar ddechrau'r cynllun mewn ffordd a oedd yn nodi blaenoriaethau a dilyniant dros amser; gallai hyn ddangos yr effaith ar ddinasyddion unigol. Croesawodd HG y sylwadau; eglurodd ei fwriad, wrth ddatblygu'r ddogfen, o sicrhau bod ystyr a disgwyliad clir ynghlwm wrth y canlyniadau, gan gydnabod yr angen am waith datblygu pellach i ennyn

hyder bod gwelliannau a dulliau mesur canlyniadau yn gadarn. Byddai'r tîm yn datblygu systemau mesur canlyniadau mewn modd a fyddai'n newid sylweddol.

Nododd SG, o'r trafodaethau yn y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd, hanes buddsoddi mewn seilwaith TG yng Nghymru; byddai rhagor o ffocws a datblygiad pellach yn cynnig buddion ychwanegol o ran mesur cynnydd yn erbyn cerrig milltir. Cytunodd â HG ynghylch y risg gynhenid o ran nodi cerrig milltir a chanlyniadau heb ddiffiniad clir neu ba mor bosibl yw eu cyflawni; yn lle hynny dylai'r ddogfen alluogi'r sefydliad i ddangos cynnydd heb wneud ymrwymadau mewn perthynas â data a allai newid a datblygu; byddai hyn yn adlewyrchu'r 'ddogfen fyw' yr oedd HG wedi'i ddisgrifio.

Dywedodd IB fod angen gwahanu targedau oddi wrth systemau mesur; gallai targedau greu cymhellion gwrthnysig. Roedd y cynllun tymor canolig integredig a'r Strategaeth Hirdymor yn gofyn am systemau mesur cadarn i gynorthwyo'r gwaith o fonitro pob agwedd ar gyflawni a sicrhau y gellir ei gyflawni heb gymhellion ffug. Roedd gofynion digidol a data yn y cynllun yn dangos sut y byddai'r sefydliad yn gwneud hyn. Croesawodd MM y drafodaeth a'r eglurder a ddarparwyd.

Croesawodd KY y cyfeiriadau clir rhwng y gyfres o ddogfennau a'r cyfeiriadau at bartneriaethau strategol.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Strategol/Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023 – 2026.

PHW 2023.03.30/4.1.3 Cynllun Ariannol / Fframwaith Rheoli Cyllidebol

Atgoffodd HG aelodau'r Bwrdd o'r broses ar gyfer dyraniadau ariannol a'r ffordd y caiff ei defnyddio i gyflawni gweithgareddau sefydliadol. Daeth mwyafrif y cyllid gan Lywodraeth Cymru, gyda rhywfaint o arian ychwanegol gan fyrddau iechyd ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys microbioleg. Crynhodd HG y ffrydiau ariannu fel a ganlyn:

- Dyraniad craidd o £133 miliwn ar gyfer 2023/24, a ddefnyddir i gyflawni'r cynllun cyffredinol, a TC yw'r swyddog atebol sy'n pennu sut y defnyddir adnoddau.
- Dyraniad nad yw'n un craidd na chylchol o £16.9 miliwn ar gael yn gysylltiedig â COVID-19. Roedd y cyllid hwn ar gael yn fisol yn seiliedig ar y swm a wariwyd mewn gwirionedd. Nododd HG y defnyddir y cyllid hwn i gyflogi staff; gweithiodd yn agos gyda Llywodraeth Cymru i geisio cymeradwyaeth, monitro gwariant ac ystyried y goblygiadau ar draws y blynyddoedd ariannol.
- Cyllid arall nad yw'n graidd, sy'n dal i fod heb ei gadarnhau eto. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â gwasanaethau sgrinio ac ariannu achosion busnes a gadarnhawyd; pe na bai cyllid ar gael, ni fyddai gwariant achosion busnes yn mynd rhagddo, gan liniaru'r risg ariannol i'r sefydliad.

Dywedodd HG y byddai effeithiau cysylltiedig â chwyddiant yn arwain at bwysau ariannu sylweddol; roedd hyn yn destun monitro agos a châi ei broffilio'n fisol. Yn ogystal, nododd HG y pwysau anochel o ran costau y byddai'n rhaid i'r sefydliad eu hamsugno. Ymhlith yr enghreifftiau roedd y cytundeb cenedlaethol ar gyfer contract Microsoft.

2.5% oedd y gofyniad o ran effeithlonrwydd ar gyfer 2023/24; byddai hyn yn heriol i GIG Cymru ei gyflawni. Amlinellodd HG y broses a ddilynwyd lle'r oedd pob Cyfarwyddiaeth wedi nodi arbedion effeithlonrwydd o 1%; roedd gwaith ar y gweill i gadarnhau natur gylchol yr arbedion. Byddai'r gofyniad arall o 1.5% yn canolbwyntio ar gynlluniau corfforaethol. Nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dyfarniadau cyflog.

Cadarnhaodd HG fod y Tîm Gweithredol yn cydweithio i benderfynu sut i fodloni'r gofynion hyn, tra hefyd yn dyrannu adnoddau i ariannu ymrwymadau'r cynllun tymor canolig integredig a'r Strategaeth Hirdymor.

Gofynnodd JW i AW wneud unrhyw sylwadau pellach. Tynnodd sylw at y dyraniad cyfalaf, a oedd hefyd yn rhan o incwm adnoddau Iechyd Cyhoeddus Cymru; roedd trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru yn mynegi pryder ynghylch lefel y dyraniad cyfalaf sydd ar gael.

Gofynnodd JW a oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau:

Croesawodd a chanmolodd MM y dull o osod y gyllideb; nododd y sefyllfa gytbwys o flwyddyn i flwyddyn - ni ddylai neb danbriso maint y dasg hon y llwyddwyd i'w gwneud, o ystyried y sefyllfa heriol ar draws y GIG yn ehangach yng Nghymru. Gofynnodd faint o arian sy'n cael ei neilltuo ar gyfer Ymchwiliad Llywodraeth y DU i Covid-19 a gofynnodd am y cyfrifiad yn hyn o beth. Nododd TC faint o waith sydd eisoes ar y gweill i goladu a darparu gwybodaeth i'r Ymchwiliad. Roedd pob darn o wybodaeth a gyflwynwyd yn sylweddol; byddai paratoi a chynnwys y sesiynau tystiolaeth a gwrandawiaid cyhoeddus yn ychwanegu at y gost. Roedd yn rhaid i bob Cyfranogwr Craidd adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan bob Cyfranogwr Craidd arall, a byddai hyn yn rhoi mwy o bwysau ar y sefydliad. Roedd risg bellach yn sgil pa mor anrhwngwladwy oedd y gofynion a'r amserlenni, sydd eisoes yn llithro. Cadarnhaodd PV hyn, a nododd yr angen cynyddol am gyngor gan Fargyfreithwyr i gefnogi'r broses. Croesawodd MM y diweddariad a chydnabu natur anochel y costau.

Cadarnhaodd HG, wrth gyflwyno'r cynllun tymor canolig integredig, y byddai'n cynnwys yn y llythyr at Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch y dyraniad cyfalaf a chostau yn sgil Ymchwiliad Cyhoeddus Llywodraeth y DU i Covid-19.

Camau Gweithredu: HG

Cymeradwydd y Bwrdd y Cynllun Ariannol/Fframwaith Rheoli Cyllidebol ar gyfer 2023/24

PHW 2023.03.30/4.1.4 Adolygiad o Risgiau Strategol

Wrth gyflwyno'r eitem hon, nododd JW y drafodaeth yn gynharach yng nghyfarfod y Bwrdd ac mewn sesiwn Bwrdd ym mis Mawrth 2023.

Amlinellodd RBW y dull a ddefnyddiwyd i nodi risgiau strategol, yn unol â'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer y Strategaeth Hirdymor. Roedd yr adolygiad wedi cynnwys pob rhan o'r sefydliad ac wedi ceisio nodi risgiau strategol yn seiliedig ar y sefydliad a'r boblogaeth, ynghyd â risgiau i berfformiad y system iechyd a gofal gyffredinol.

Mewn sesiwn gynharach yn canolbwyntio ar risgiau, roedd y Bwrdd wedi cytuno a datblygu pymtheg thema, gan nodi saith Disgrifiydd Risg Strategol wedi hynny; roedd y Tîm Gweithredol wedi asesu'r rhain ac wedi eu profi yn erbyn rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru i hysbysu, eirioli, ysgogi a chyflawni. Byddai'r Gofrestr Risgiau Strategol ar ei newydd wedd yn cael ei hystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Croesawodd TC y dull newydd a fabwysiadwyd a'r cysylltiadau a wnaed gyda'r Strategaeth Hirdymor gyffredinol.

Diolchodd JW i RBW am arwain ar y gwaith hwn ac i bawb a fu'n rhan o'r broses.

Cymeradwydd y Bwrdd y Disgrifiyddion Risgiau Strategol diwygiedig.

PHW 2023.03.30/4.2 Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023

Yn dilyn diweddariad llafar gan LB ar y Log Gweithredu, **cymeradwydd** y Bwrdd y Cofnodion a'r Log Gweithredu

PHW 2023.03.30/4.3 Cod Ymddygiad y Bwrdd

Cyflwynodd JW God Ymddygiad diwygiedig y Bwrdd i'w gymeradwyo, yn dilyn cyfnod ymgynghori. Nododd fod hyn yn rhan o'r gwaith ehangach ynghylch diwylliant sefydliadol.

Cymeradwydd y Bwrdd god ymddygiad diwygiedig y Bwrdd.

PHW 2023.03.30/4.4 Cytundeb ar gyfer Cynnal Gwasanaeth Delweddu Cenedlaethol

Cyflwynodd LB gynnig yn gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo estyniad i'r cytundeb, a thrwy hynny byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn parhau i gynnal Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru am 3 blynedd arall hyd at 31 Mawrth 2026.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr estyniad i'r cytundeb, a thrwy hynny byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn parhau i gynnal Academi Delweddu Genedlaethol Cymru ar ran Cyrff Iechyd Cymru yng Nghymru am 3 blynedd arall, hyd at 31 Mawrth 2026.

PHW 2023.03.30/5 Eitemau i'w Nodi

PHW 2023.03.30/5.1 Adroddiad y Cadeiryddion (26 Ionawr 2023)

Darparodd JW nodyn o drafodaethau ar lefel y Bwrdd a'r camau a gymerwyd mewn sesiwn breifat, yn unol â'r polisi cymeradwy.

PHW 2023.03.30/5.2 Rhagolwg o 2023/24

Yn ogystal â'r eitemau a restrir yn y ddogfen Rhagolwg, nododd RBW yr angen i gynnwys sesiwn Llysgenhadon Ifanc ym mis Gorffennaf; roedd yn gobeithio trefnu hyn i gyd-fynd â chyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Camau Gweithredu: LB

PHW 2023.03.30/6 Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd

Mae'r cyfarfod nesaf wedi cael ei drefnu ar gyfer 25 Mai 2023.

PHW 2023.03.30/7 Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus

Daeth y cyfarfod i ben am 1pm